

Rhifyn 4 - Gaeaf 2005

menterra



Cylchlythyr Menter Arloesi Amaeth Gwynedd Croeso a Chyflwyniad

Fel Uwch Arweinydd

*Portffolio Datblygu ar Gyngor
Gwynedd, mae hi'n bleser
gennyf eich croesawu i'r
pedwerydd rhifyn o gylchlythyr
MENTERRA.*

Ers cychwyn y prosiect ym mis
Tachwedd 2003, mae amrywiaeth o
gnydau wedi cael – ac yn cael - eu
treialu ar hyd a lled Gwynedd; megis
Had Llin, Ceirch Noeth, Camelina a
Ffrwythau Meddal.

Mae'r tîm wedi bod yn cydweithio gyda nifer o
ffermwyr Gwynedd yn ystod y cyfnod yma wrth i'r

prosiect geisio cyrraedd ei nôd o greu diwylliant o
arloesedd amaethyddol ymysg ffermwyr y Sir.

Yn y flwyddyn newydd, mae her a sialens yn wynebu
MENTERRA pan fydd y camau cyntaf yn cael eu
cymryd gyda'r treialwyr madarch. Yn ogystal, mae'r
prosiect yn parhau i asesu gwerth Llysiau Môr. Cyfnod
cyffrous yn wir !

Yn y cylchlythyr cyntaf, a gyhoeddwyd yn ystod Haf
2004, nodwyd bod diwydiant amaethyddol sy'n ffynnu
yn hanfodol i gynnal economi a chymuned gref yn ein
hardaloedd gwledig. Mae'r datganiad yna mor addas
heddiw ac yr oedd ddeunaw mis yn ôl.

Y Cynghorydd Dafydd Iwan
*Uwch Arweinydd Portffolio – Datblygu
Cyngor Gwynedd*



Arddangosfa MENTERRA yn Eisteddfod Genedlaethol Eryri a'r Cyffiniau 2005



Bu'n gyfnod eithriadol o brysur i'r prosiect ers cyhoeddi'r trydydd rhifyn. Mae'r treial Ffrwythau Meddal yn datblygu'n dda ar y deg fferm ar draws Gwynedd – a cheir diweddariad gan ddau o'r treialwyr yn y rhifyn hwn.

Yn anffodus, cafodd y cnwd Ceirch Noeth Organig a oedd yn cael ei dreialu ar fferm Bwlch Gwyn, Arthog ei ddifetha gan y stormydd ar ddiwedd Awst. Er hynny, roedd gan y Brifysgol sampl o safon da; a thrwy BIC Innovation trefnwyd iddo gael ei rhostio gan gwmni Lincoln & York Ltd. Roedd y canlyniadau cyntaf a ddaeth i law yn bositif ac yn awgrymu bod gan y cnwd botensial.

Er mwyn rhoi'r cyfle i gymaint a phosib o ffermwyr Gwynedd a oedd wedi datgan diddordeb mewn treialu madarch, trefnwyd dau gyfarfod – un yn y Ganolfan Arloesi-Amaeth, Henfaes a'r llall yn yr Oakley Arms, Maentwrog – gan y Swyddogion Mentrau Amaeth. Yn y cyfarfodydd yma, cafwyd y pleser o gwmni Mr. Richard Edwards a Mr. Mark Wassell, Humungus Fungus (Llangadog). Cafwyd cyflwyniadau ganddynt a chafodd y ffermwyr gyfle i holi'r ddau. Trefnu taith gwybodaeth i'r Ffatri Madarch yn Llangadog yw'r cam nesaf yn y broses cyn bydd y prosiect yn mynd ati i ddewis y treialwyr erbyn canol mis Rhagfyr.

Rydym yn parhau i asesu gwerth Llysiau Môr ac, erbyn hyn, yn obeithiol y byddwn mewn sefyllfa i gychwyn y treial yn fuan yn ystod mis Ionawr 2006.

Cafwyd wythnos lwyddiannus yn y Sioe Frenhinol a dau ddiwrnod prysur yn Sioe Môn. Am yr ail flwyddyn yn olynol, roedd Sioe Meirion yn anlwcus gyda'r tywydd pan ddinistrwyd nifer o'r stondinau gan y stormydd a darodd Harlech – a gweddill Gwynedd – ar 23 Awst. Yn sicr, rydym yn dymuno gwell lwc i'r



Aeron Tagu, Nasareth

trefnwyr y flwyddyn nesaf. Er waetha'r mwd, roedd ein harddangosfa o gnydau amgen yn Eisteddfod Genedlaethol Eryri a'r Cyffiniau yn y Faenol yn hynod boblogaidd gyda'r eisteddfodwyr hefyd !

O ran tîm y Brifysgol, gadawodd Dr. Lorna Lueck (Rheolwr Ymchwil a Datblygu) ei swydd ac ymunodd Becky Snell fel Swyddog Gweinyddol rhan amser. Dymunir yn dda i'r ddwy ohonynt.

Yn olaf, hoffai MENTERRA gymryd y cyfle i ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'r Swyddogion Mentrau Amaeth,

John Roberts neu Hazel Jones:
(01766 512300).



Rhai o'r stondinau a ddinistrwyd gan y storm, Sioe Meirion 2005

Camelina - ffynhonnell newydd o olew omega-3

Dangoswyd bod llawer budd wrth fwyta asidau brasterog gan gynnwys hyrwyddo iechyd cardiofasgwlaidd a niwrolegol. Cysylltwyd y cyfansoddau hyn â rheoli problemau ymddygiad megis anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD) mewn plant. Y brif ffynhonnell mewn diet dynol ar hyn o bryd yw pysgod brasterog ond mae'r cyflenwad yn brin oherwydd lleihad yn niferoedd y pysgod ac awgrymir peidio a bwyta llawer o bysgod brasterog oherwydd eu bod wedi'u halogi gan fetelau trwm. Mae gwaith o fewn MENTERRA ym Mhrifysgol Bangor yn ceisio mynd i'r afael â'r problemau hyn mewn sawl ffordd.

Ochr yn ochr â'n gwaith o fwydo omega-3 had llin i'n wŷn er mwyn gwella nodweddion maethol eu cig, rydym hefyd wedi bod yn ymchwilio am ffynhonnell lysieuol newydd o omega-3 a geir mewn camelina, adwaenir weithiau fel aur pleser. Cnwd tymor byr gyda mewnbwn isel yw'r camelina sydd, er bod ei had yn fychan iawn, (pob un yn pwyso llai na 1mg, o gymharu i oddeutu 50mg ar gyfer gwenith neu haidd) yn gystadleuol iawn â chwyn, hyd yn oed yn y cyfnod tyfu cynnar. Argymhellir rhoi nitrogen ar gyfradd o 70kg i bob ha (o'i gymharu â 200kg ar gyfer gwenith) a'r unig gemegolion fydd angen ei roi fel arfer yw desiccant cyn ei gynhaefu, naill a'i diquat neu lyffosad. Arweiniodd y canlyniadau cychwynnol addawol mewn arbrofion maes yn Henfaes yn ystod 2004 i arbrofion ar raddfa fasnachol lwyddiannus ar ffermydd Dwyfor yn 2005.

Tyfwyd camelina ger Aberdaron, pryd y goresgynnwyd problemau o hadu hadau sydd mor fân mewn rhychau drwy eu hau ar wasgar. Roedd cynnyrch y cnwd ychydig yn llai na 2 t/ha.

Cynhwysa hadau'r camelina oddeutu 35% o olew, ac mae 40% ohono yn asidau brasterog. Yn wahanol i had llin, gellir puro olew camelina er mwyn iddo fod â blas niwtral ac felly mae'n addas ar gyfer ystod eang o ddefnydd coginiol gan gynnwys dresin salad, mayonnaise a hyd yn oed ar gyfer ffrio bas.

Fel ffynhonnell omega-3 mewn diet dynol mae olew camelina yn cynnig manteision cynaliadwyedd pwysig dros bysgod brasterog. Fel cnwd mewnbwn isel mae'n medru darparu ar gyfer marchnad mewn omega-3 sy'n ehangu tra ar yr un pryd yn cael gwared â llawer o'r difrod amgylcheddol y gellid eu hachosi gan ffynonellau eraill.

Dr Jim Dimmock

Prifysgol Cymru Bangor



Dr. Jim Dimmock (PCB) yn sefyll mewn cae llawn camelina, ger Aberdaron

Haidd Noeth – Dyfodol disglair i Gnowd Hynafol

Gellir olrhain haidd heb eisin, neu haidd noeth yn ôl i Iran rai miloedd o flynyddoedd yn ôl ac wedi hynny lledaenodd ar draws Asia, Ewrop a Gogledd Affrica.

Yn Ewrop, defnyddiwyd haidd ynghyd â rhyg i gynhyrchu bara mewn ardaloedd fel Cymru lle ceid amgylchiadau ymylol ar gyfer tyfu gwenith. Er hynny gyda gwelliannau yn y technegau amaethu daeth bara gwenith, oedd ar un amser yn foethus a drud, ar gael i bawb.

Ar ôl canrifoedd o'i esgeuluso mae diddordeb o'r newydd yn Ewrop a Gogledd America mewn haidd noeth fel bwyd iachus. Gellir defnyddio haidd noeth heb fod angen perlio, triniaeth sgraffiniol sy'n tynnu'r plisgyn a'r haen o fran sydd oddi tanodd. Mae'r ffibr hydawdd megis b-glucan a geir mewn haidd grawn cyfan yn medru lleihau colesterol a rheoli lefel siwgr yn y gwaed ac yn amddiffynfa yn erbyn clefyd y galon a chlefyd siwgr. Arbrofwyd mathau gwahanol o Sweden, Yr Almaen a Gweriniaeth Tsiec yng Nghanolfan Ymchwil Henfaes, a llwyddwyd i gnydio tua 70% o gynnyrch haidd gwanwyn confensiynol. Awgryma hyn y byddai'r cnwd yn ddichonadwy gyda phremiwm priodol dros rywogaethau â phlisgyn. Gobeithiwn cyflawni profion ar rai o'r mathau hyn ar y fferm er mwyn eu cynhaeafu yn 2006.



Haidd grawnddu o Dibet yn y tŷ gwydr ymchwil yn Henfaes

Er ei fod wedi ei ddisodli gan wenith fel prif ddieta pobl yn Ewrop, roedd haidd noeth yn ffynnu ym mynyddoedd yr Himalaia, gan fod haidd yn medru dygymod â phriddoedd tenau, tymor tyfu byr a'r uchder. Yma mae wedi ei groesrywio â haidd gwyllt o Asia ac roedd yr amgylchiadau anghysbell yn cynhyrchu amrywiaethau ffrwythlon gwahanol. Rydym ar hyn o bryd yn lluosio hadau rhai o'r amrywogaethau gafodd eu rhoddi gan Ganolfan John Innes. Bydd y rhain yn cael eu tyfu yn Henfaes yn ystod 2006, ynghyd â rhai arbrofol gan ICARDA/CIMMYT yn Aleppo.

Dr. Edward Dickin
Prifysgol Cymru Bangor



Haidd Noeth 'Lawina', Fferm PCB, Henfaes, Abergwyngregyn

“TUAG AT FASNACHEIDDIO –gwir gynnydd ”

Maer baned goffi o geirch noeth y cyfeiriais ati yn gynharach yn y flwyddyn wedi cymryd cam pellach yn ei blaen. Rydym wedi ymgymryd â chyfres o brofion rhostio gyda chwmmni rhostio coffi yn swydd Lincoln. Trefnwyd hyn gyda chymorth Michael Squires o Goffi Dwyfor a fu'n gymorth mawr i ni yn y prosiect hwn.

Roeddem yn medru cynhyrchu amrywiaeth o fersiynau yn amrywio o'r golau i'r tywyll ond roeddem yn teimlo nad oedd y blas yn ddigon cymhleth a chyffrous i wneud gwir effaith ar yfwyr coffi. Felly rydym am roi cyn-driniaeth i'r grawn i weld os bydd hyn yn gwella'r blas ar ôl eu rhostio. Mae mwy o brofion wedi eu cynllunio ar gyfer y flwyddyn hon, ac mae peth o'r cnwd yn y ddaear yn barod er mwyn cael mwy o gynnyrch ac i roi prawf cynhwysfawr ar y cynnyrch ar ôl ei gynhaefu yn 2006.

“Tyfu madarch-rhai egsotig – byddant ar gael yn fuan yng Ngwynedd”

Gwnaed y datganiad yna yn y cylchlythyr diwethaf ac nid yw wedi newid ond bydd y profion tyfu dwys yn awr yn canolbwyntio ar wneud dau gyfranogwr yn hunan gynhaliol drwy gyfuno cyfleusterau tyfu gyda chyfleuster tyfu bloc yng Ngwynedd. Yn ogystal â'r prosiect hwn bydd 8-10 ychwaneg o bobl yn ymgymryd â phrawf tyfu hirdymor ar gyfer ystod fwy eang o rywogaethau yn seiliedig ar frechu boncyffion derw.

Mae dewis y ffermwyr yn barod ar y gweill a'r cyfarfodydd cychwynnol a sesiynau trafod y tu ôl i ni a sesiynau codi ymwybyddiaeth mewn safle go iawn yn



Beth oedd yn ddiddorol hefyd i ni oedd pa mor sydyn roedd pobl yn bwyta'r samplau o rawn wedi'u rhostio gan ddweud y byddai yn gwneud byrbryd da – felly mae hyn wedi agor llwybr datblygu arall fydd yn arwain at gynhyrchu swm arbrofol ar gyfer cynnyrch byrbryd wedi'i glystyru erbyn diwedd 2006.

Felly mae dau gynnyrch gyda photensial masnachol wedi deillio o'r cnwd arbrofol hwn.



Ymweliad â Humungus Fungus, Llangadog

wythnos gyntaf mis Rhagfyr . Bydd y dewis terfynol o brofwyr yn ddibynnol ar ymweliad safle â'i ffermydd ym mis Rhagfyr.

Mae cynhyrchu Ffrwythau Meddal yn mynd yn ei flaen a rhagwelir y bydd y llwyni'n cael eu gorchuddio â rhwydau'r flwyddyn nesaf. Efallai y gwelwn ni fwy o'r cnwd y flwyddyn nesaf na'r adar! Er hynny roedd yr hyn a gynaeafwyd yn dda. Mae un o'n tîm, Jon Stephens wedi cwblhau llawlyfr masnacheiddio ffrwythau meddal ar gyfer tyfwyr ac a gafodd ei gyflwyno a'i drafod yng nghyfarfod diwethaf y tyfwyr. Felly pe bydd unrhyw un yn dymuno defnyddio'r cnwd hwn ar ôl MENTERRA, bydd arweiniad cynhwysfawr ar gael ar y ffordd i fynd rhagddo.

Mae bywyd MENTERRA fel prosiect yn awr yn dechrau trawsnewid ac yn cychwyn enw brand -ac fe welwn gynnyrch gyda brand MENTERRA yn dod i'r amlwg o'r prosiect fel y daw i derfyn yn fuan yn 2007.

Chris Price-Jones

Cyfarwyddwr Technoleg – BIC Innovation

Treial Madarch

Yn ystod y misoedd diwethaf mae prosiect MENTERRA wedi trefnu dau gyfarfod, y cyntaf yng Nghanolfan Arloesi-Amaeth, Henfaes, Abergwyngregyn ar Hydref 11eg, 2005 a'r ail yn yr Oakley Arms, Maentwrog ar y 3ydd o fis Tachwedd 2005. Roedd y cyfarfodydd hyn yn gam cyntaf tuag at ddewis dau ffermwr i ymgymryd â phroffion tyfu madarch yng Ngwynedd.

Gwahoddyd ffermwyr oedd wedi dangos diddordeb yn y prosiect gan MENTERRA i fynychu'r cyfarfodydd hyn. Cafodd y cyfarfodydd hyn hefyd eu mynychu gan Mr. Richard Edwards a Mr. Mark Wassell o Humungus Fungus; cwmi a sefydlwyd yn Llangadog, Sir Gaerfyrddin gyda'r bwriad o ddatblygu systemau proffidiol ar gyfer tyfu madarch organig ar sail datblygiad cynaliadwy gydag ychydig o effaith. Bu'r cwmni a thyfwyr cysylltiedig yn gyfrifol am system

Beth am fynd yn Wyllt?

Ni welwyd niferoedd arwyddocaol o Faedd Gwyllt ar dir Ynysoedd Prydain ers dros 300 mlynedd, ond gall eu presenoldeb yng Ngwynedd fod i fyny i chi!

Fe'u helwyd i ddilead gan ein cyn deidiau gan ei fod yn gig mor boblogaidd. Yn gig blasus a gyda llai o sail na'r mochyn confensiynol y gwyddom amdano, mae'n byw ar fater llysieuol ond fel ninnau, angen rhywfaint o brotîn ac yn ei gael drwy bryfaid a ffrwythau.

Er fod pocedi ohonynt yn crwydro a magu mewn hanner dwsin o lefydd yn Ne Lloegr, mae'r niferoedd sy'n eu ffermio'n fasnachol yn brin.

Amcangyfrifir fod gwerth y farchnad oddeutu £2,000,000 y flwyddyn ac yn tyfu. Hyd y gwyddir, d'oes neb yn eu ffermio yng Nghymru er fod engreiffitiau ledled Lloegr. Mae hanner y farchnad yn cael ei chyflenwi gan fewnforion o Ewrop gan fod y galw am y cig yn llawer mwy na'r cyflenwad presennol. Gwnaethwyd arolwg diweddar gyda uagain o gogyddion ledled y sir er mwyn canfod os oedd galw lleol am y cig. Mynegodd dros 80% ohonynt y byddent â diddordeb ei goginio pe gellir cael sicrwydd o gyflenwad safonol.



Baedd Gwyllt Ifanc, Caint

arloesol ac unigryw ar gyfer tyfu madarch sy'n defnyddio hen gynhwysyddion llongau. O ganlyniad, mae hyn yn ei gwneud yn bosibl i osod cyfleusterau tyfu mewn mannau lle mae'n anodd cael madarch ffres sydd wedi'u tyfu'n lleol.

Yn dilyn dau gyfarfod llwyddiannus iawn, mae MENTERRA wedi trefnu ymweliad â Humungus Fungus. Mae'r daith wedi ei threfnu fel bod pawb sydd angen mwy o fanylion ynglŷn â thyfu'r madarch egsotig hyn yn cael gweld eu hunain yn union sut mae'r broses yn gweithio o'r blociau ffrwytho hyd nes eu cynhaeafu ynghyd â'r lefel o ymrwymiad sy'n angenrheidiol ar gyfer gwneud y math yma o broffion yn llwyddiannus.

Bydd mwy o wybodaeth am yr ymweliad yma yng nghylchlythyr nesaf y prosiect.

Hazel Jones - *Cymad*



Baedd Gwyllt, Dyfnaint

Yn naturiol, mae nifer o ffactorau i'w gwyntyllu cyn mentro i sefydlu fferm baedd gwyllt. Gall rhain amrywio o anghenion tir penodol, trwyddedu, prosesu a marchnata. Fel rhan o brosiect MENTERRA, mae BIC Innovation wedi ymchwilio i'r posibiladau ac wedi asesu bygythiadau. Wrth ystyried costau ffensio a'r llwybr y cymerir i'r farchanad, mae gan ffermio baedd gwyllt y potensial i gynnig cyfle masnachol a fyddai'n creu gwerth ychwanegol o diroedd ymylol.

Huw Watkins
BIC Innovation

Tyddyn Meirion, Rhiw

Wel, am flwyddyn fu hon am dywydd eithafol! Cafodd hyn effaith ar bobl, anifeiliaid a'n holl goed a llwyni arbrofol.

Tra bu'r ymwelwyr yn mwynhau'r haul roedd pawb a phob dim arall yn gwywo ar brydiau. Yn ôl y sôn, cawsom ni ym mhen draw Llŷn lai o law na'r rhan fwyaf o leoedd ac fe wnaeth effeithio ar brosiect MENTERRA .

Roedd y planhigion yr Eirin Tagu mwyaf aeddfed yn ymdopi'n well gyda'r tywydd na Helygen y Môr . Roedd yr Eirin Tagu yn datblygu'n dda ac wedi cynhyrchu ychydig o aeron ac fe wnaethom flasau rhai ac roedd blas hyfryd, tebyg i afal, arnynt. Roedd y mwyeilch wrth eu boddau wrth weld y llwyni llawn aeron ac fe wnaethant ruthro atynt a'i gadael yn foel. Rhaid i ni roi meddwl ar waith ynglŷn â'r broblem honno a cheisio'i datrys mewn dull ymarferol a fforddiadwy.

Roedd Helygen y Môr yn gorfod gwneud ymdrech galed yma, gan ei fod yn blanhigyn mor anaeddfed mewn cae oedd yn goleddu tua'r de orllewin; hyd nes y cafwyd lluniaeth hylifol o'r awyr yn hwyr yn yr haf ac wedyn fe dyfodd y planhigion yn sydyn iawn! Rydym yn bryderus ynglŷn â'r tyfiant ifanc meddal pe cawn aeaf caled. Bydd yn ddiddorol monitro'r effaith.

Trodd dail yr Eirin Tagu yn lliw coch llachar prydferth cyn i'r gwyntoedd hallt chwythu i mewn ac ymosod arnynt. Dim ond nawr ym mis Tachwedd mae Helygen y Môr yn dechrau dangos unrhyw arlliw hydrefol. Mae'r gaeaf llaith tyner yn sicr wedi arafu'r broses o fynd i gysgu yn y llwyni a'r coed o gwmpas y fferm.



Y llecyn Ffrwythau Meddal, Llwyn Gwilym, Llan y Mawddwy

Yn ystod mis Medi aethom i gyfarfod Treialwyr yng Nghanolfan Arloesi-Amaeth, Henfaes, Abergwyngregyn. Roedd yn brynhawn diddorol gan gynnwys cyflwyniadau ar y defnydd masnachol o'n planhigion aeron, a dylem ni fod yn edrych ymlaen ac yn meddwl ymhellach am wneud ymchwil i'r marchnadoedd. Cawsom lawer o gyngor gan arbenigwyr yn y maes ac a roddodd ddigon o bethau i ni feddwl amdanynt ar hyd y ffordd adref. Hefyd rhoddodd gyfle i ni gyfarfod â'r treialwyr Ffrwythau Meddal eraill.

Sion & Belinda Hughes

Yn yr erthygl a ymddangosodd yn Rhifyn 3, datganwyd bod meithrinfa Mr & Mrs. Hughes, "Coed Llŷn", yn cynhyrchu 2,500 o goed ifanc y flwyddyn. Dylai'r ffigwr hwn fod yn 22,500.

Mae MENTERRA yn ymddiheuro i Mr & Mrs. Hughes am y camgymeriad.



Helygen y Môr, Ty'n y Bryn, Trawsfynydd

Ty'n y Bryn, Trawsfynydd

Gyda rhagor na 30cm o law yn disgyn mewn llai na phedwar diwrnod a diwrnodau clir braf â barrug trwm dros nos yn dilyn, ma'e'n deg dweud bod y gaeaf wedi cyrraedd.

Mae'r Llus a blannwyd gennym fis Ebrill wedi gwneud yn dda iawn, gyda phob planhigyn yn blodeuo ac yn cynhyrchu cnwd cychwynnol da o aeron bychain. Er awgrymu y dylid cael gwared â'r aeron yn y flwyddyn gyntaf er mwyn i'r holl faetholion gael eu defnyddio i ennyn twf y planhigion, gadawsom i gyfran helaeth o'n planhigion gadw eu haeron tan iddynt aeddfedu (am resymau amlwg). I raddau helaeth, profodd hyn yn fuddiol, gan iddo dynnu ein sylw at broblem ddifrifol y bydd rhaid mynd i'r afael â hi cyn y tymor nesaf – adar. Diflannodd yr holl aeron cyn iddynt aeddfedu'n llawn, felly ma'e'n rhaid i ni ganfod ffordd o ddatrys y broblem hon. Mae'r llwyni ynghwsg erbyn hyn, ond maent yn sicr wedi tyfu'n ardderchog dros yr haf, ac wedi hen sefydlu eu hunain.



Llus Americanaidd, Y Bryn, Rhydyclafdy

Fe wnaethom blannu Helyg y Môr ym mis Ebrill hefyd; i ddechrau, roedd yr holl blanhigion yn fychan iawn, gan gyrraedd dim ond 12cm o uchder ac roeddent yn denau iawn. Yn ystod y gwanwyn, ychydig iawn o ddatblygiadau a fu, ond wrth i'r haf dynnu at ei derfyn ac yng ngwres yr hydref, gwelwyd cynnydd sylweddol, gyda'r rhan fwyaf o lwyni'n llenwi'n braf ac yn tyfu i fod rhwng 70 a 90cm o uchder, er nad oes yr un ohonynt wedi blodeuo na chynhyrchu aeron.

Gan fod y llus a'r helyg wedi sefydlu eu hunain bellach, rydym yn edrych ymlaen at Wanwyn a Haf 2006 pan fydd twf pellach, gobeithio, yn dwyn ffrwyth, ac edrychwn ymlaen at fwyta ein cnwd cyntaf.

Peter & Jan Barrett



Llus Americanaidd, Ty'n y Bryn, Trawsfynydd